BFI NETWORK | THE NATIONAL LOTTERY | ffilm CYMRU WALES

# CYDLYNYDD HYFFORDDIANT A DIGWYDDIADAU

Mae Ffilm Cymru yn chwilio am Gydlynydd Hyfforddiant a Digwyddiadau i gefnogi'r gwaith o ddarparu cyfres o ddigwyddiadau rhwydweithio, dosbarthiadau meistr a sesiynau hyfforddi, fel rhan o gynnig RHWYDWAITH BFI Cymru ar gyfer awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

| | |
|---|---|
| **Math o gytundeb:** | Cytundeb llawrydd |
| **Lleoliad:** | Gweithio o bell, yn swyddfa Ffilm Cymru Wales yng Nghaerdydd, mewn lleoliadau amrywiol lle fydd y digwyddiadau amrywiol yn cael eu cynnal |
| **Yn adrodd i:** | Rheolwr RHWYDWAITH BFI Cymru |
| **Dyddiad dechrau:** | Gynted â phosib yn Awst 2021 |
| **Tymor:** | 8 mis o Awst 2021 – Mawrth 2022 (oriau hyblyg rhan-amser, disgwylir cyfartaledd o 2 ddiwrnod yr wythnos, ac weithiau bydd angen gweithio gyda'r nos ac yn ystod rhai penwythnosau) |
| **Ffi:** | £10,000 (gan gynnwys TAW, os yn berthnasol). Telir fesul cam yn unol â chwblhau'r cerrig milltir a gytunwyd arnynt yn foddhaol |
| **Cynhwysiant:** | 'Rydym wedi ymrwymo i ehangu cynhrychiolaeth a phrofiad byw yn ein sefydliad. Byddwn yn cynnig cyfweliad awtomatig i bob ymgeisydd sy'n cwrdd â'n meini prawf hanfodol ac sy'n nodi eu bod yn dod o hil neu ethnigrwydd nad yw'n cael ei gynrychioli'n ddigonol, neu sy'n fyddar, niwroamrywiol, neu'n byw gydag anabledd. |
| **Dyddiad Cau:** | 12:00pm (Ganol dydd) ar ddydd Gwener 23ain Gorffennaf 2021 |

**Rydym yn sefyll mewn undod i ddweud NA wrth hiliaeth ac yn ymrwymo i #DimHiliaethCymru**

**YDYCH CHI?**

Llofnodwch y polisi heddiw.
www.zeroracismwales.co.uk

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG

## GWYBODAETH GEFNDIROL

Mae RHWYDWAITH BFI Cymru'n cefnogi talent newydd a thalent sy'n dod i'r amlwg yn y byd gwneud ffilmiau sy'n Gymry, neu sy'n byw yng Nghymru, gan gynnig nawdd iddynt gynhyrchu ffilmiau byrion, i ddatblygu ffilmiau nodwedd, i ddatblygu eu gyrfaon, a thrwy gynnig hyfforddiant penodol a gweithgaredd rhwydweithio.

Bydd y Cydlynydd Hyfforddiant a Digwyddiadau Rhywdweithio yn gweithio'n glos â thîm RHWYDWAITH BFI Cymru, sy'n cynnwys Rheolwr RHWYDWAITH BFI Cymru a'r Swyddog Datblygu, er mwyn cynllunio a chynnal y digwyddiadau, y dosbarthiadau meistr a'r sesiynau hyfforddi canlynol.

**Digwyddiadau Rhwydweithio**
(byddant yn cael eu cynnal gydol y flwyddyn, tua bob chwarter)
Mae Ffilm Cymru a RHWYDWAITH BFI Cymru'n anelu at hyrwyddo rhwydweithio ar gyfer talent newydd a thalent sy'n dod i'r amlwg, mewn partneriaeth â sefydliadau sy'n canolbwyntio ar wneuthurwyr ffilm, artistiaid ac ymarferwyr creadigol nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar hyn o bryd.

Y nod fydd cyflwyno 4 x digwyddiad rhwydweithio dros gyfnod o flwyddyn, a phob un yn cynnwys cyfrannwr gwâdd a / neu hyfforddiant pendol, ac yn dilyn bydd cyfle i gysylltu â chyfoedion.

Bydd y pynciau posib yn cynnwys: gweithio mewn ffilm a chyfryngau eraill (e.e. theatr, celf weledol), gyrfaoedd cynaliadwy / datblygu portffolio, lles ar gyfer ymarferwyr creadigol.

Cynhelir y digwyddiadau yn chwarterol, h.y. yn Haf, Hydref a Gaeaf 2021, a Gwanwyn 2022.

**Y Labordy III: Dosbarthiadau Meistr I Gynhyrchwyr**
(i'w cynnal o Medi 2021 i Chwefror 2022)

Menter ddatblygu broffesiynol yw Y Labordy III ar gyfer carfan o 4 cynhyrchydd newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n gweitho mewn ffilm, teledu a theatr, ac sydd â'r gallu i weithio yn yr iaith Gymraeg. Arweinir y rhaglen gan Ffilm

Cymru Wales a RHWYDWAITH BFI Cymru, a'r partneriaid yw S4C a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Fel rhan o Y Labordy, y nod fydd cynnig 10 x dosbarth meistr wedi eu harwain gan bobl sy'n cyfrannu i'r diwydiant, gan gynnwys cyfranwyr o'r byd ffilm, teledu, theatr, VR, trochi a gemau.

Mae pynciau'r sesiynau a gynlluniwyd yn cynnwys: trosolwg o gynhyrchu ar gyfer ffilm / theatr / teledu / VR, trochi a gemau, ynghyd â datblygiad creadigol, materion cyllido a chyfreithiol, cynhyrchu / ôl-gynhyrchu, gwerthiant / dosbarthu / marchnata, cyd-gynhyrchu rhyngwladol, a datblygu busnes cynaliadwy.

Efallai y bydd rhai sesiynau'n cael eu hagor i nifer cyfyngedig o gynhyrchwyr, awduron a chyfarwyddwyr eraill.

**Beacons: Sesiynau Hyfforddi Ar Gyfer Gwneud Ffilmiau Byr**
(i'w cynnal yn Hydref a Rhagfyr 2021)

Mae Cronfa Ffilmiau Byrion Beacons yn comisiynu ffilmiau byr byw, ffilmiau dogfen a ffilmiau wedi eu hanimeiddio o'r radd flaenaf, mewn partneriaeth â BBC Cymru Wales. Bydd y timau a ddewisir (hyd at 25 o awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr) yn elwa o ddatblygiad proffesiynol i'w helpu i ddatblygu eu gyrfaoedd.

Fel rhan o Beacons, yr amcan fydd cyflwyno 6 x sesiwn hyfforddi ar gyfer y garfan a ddewiswyd, dan arweiniad pobl sy'n cyfrannu at y diwydiant.

Mae pynciau'r sesiynau a gynlluniwyd yn cynnwys: cydweithredu creadigol, cyllidebu ac amserlennu, castio / gweithio gydag actorion, cynhyrchu, ôl-gynhyrchu / golygu a strategaeth ar gyfer gwyliau.

Trefnir y sesiynau ar 2 ddiwrnod ar wahân:

- 1 yn ystod y cyfnod datblygu (Hydref 2021)
- 1 yn ystod y cyfnod cyn-gynhyrchu (Rhagfyr 2021)

Efallai y bydd rhai sesiynau'n cael eu hagor i gynulleidfa ehangach o wneuthurwyr ffilm.

**Dull cyflwyno**
Ar hyn o bryd mae Ffilm Cymru'n cyflwyno'r holl weithgaredd ar-lein oherwydd effaith barhaus Covid-19.

Pe bai'n bosibl ail-ddechrau gweithgaredd wyneb yn wyneb yn ddiweddarach yn y flwyddyn, byddwn yn ystyried a yw hyn yn ymarferol ac yn ddymunol yn seiliedig ar natur y gweithgaredd, anghenion y cyfranogwyr, gofynion hygyrchedd a'r gyllideb sydd ar gael.

## PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Gan adrodd i Reolwr RHWYDWAITH BFI Cymru, byddwch yn:

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio gyda thîm FfCW ac unrhyw bartneriaid perthnasol, gan nodi'r nodau a'r amcanion cyffredinol a osodwyd.
- Gwahodd amrywiaeth o gyfranwyr o safbwynt cefndir a safbwyntiau, yn unol â chynllun EDI FfCW, a chadarnhau eu gwasanaeth.
- Cwblhau cynnwys sesiwn, fformat, amserlennu a'r holl fanylion ymarferol a thechnegol eraill gyda thîm FfCW, gan hysbysu'r cyfranwyr gwadd a'r partneriaid, fel y bo'n berthnasol.
- Trefnu digwyddiadau ar blatfform ar-lein (fel Zoom neu Remo) a / neu archebu lleoliad lle ellir cwrdd wyneb yn wyneb, os yw'n berthnasol.
- Casglu a drafftio copi ar gyfer gwefan FfCW a / neu sesiynau gwybodaeth ar gyfer y carfannau fydd yn cyfrannu, gan gysylltu â Rheolwr Cyfathrebu FfCW, yn ôl yr angen.
- Trefnu anghenion mynediad fydd gan unrhyw fynychwr / cyfranogwr neu gyfrannwr, e.e. cyfieithwyr.
- Cadarnhau cytundebau cyfrannwyr a sicrhau bod hawliau gweithwyr llawrydd wedi eu gwirio a'u cwblhau.
- Cydlynu digwyddiadau'r diwrnod, gan gynnwys unrhyw sesiynau technegol o flaen llaw, gyda'r cyfranwyr gwadd a thîm FfCW.
- Sicrhau bod y digwyddiadau'n cael eu cyflwyno o fewn y gyllideb, gan nodi'r gwariant a darparu adroddiadau ariannol, yn unol â chais tîm FfCW.
- Cysylltu ag Adran Gyllid FfCW a'r tîm ehangach o ran ychwanegu cyflenwyr, codi archebion pryniant a chytuno ar a llofnodi anfonebau.

- Drafftio ffurflenni adborth, sicrhau eu bod yn cael eu gyrru at fynychwyr / cyfranogwyr a chynhyrchu crynodeb o'r ymatebion.
- Cyfrannu at unrhyw gyfarfodydd gwerthuso a gynhelir gyda thîm FfCW a'r partneriaid perthnasol.
- Ymgymryd ag unrhyw waith rhesymol arall, yn ôl yr angen.

## EICH PROFIAD

- Byddwch yn medru ysgogi eich hun i weithio ac yn meddu ar sgiliau trefnu, gweinyddu, ysgrifenedig a chyfathrebu llafar cryf; 'rydych yn gweithio'n fanwl, ac yn medru cadw cofnodion a rheoli data yn rhagorol.
- Gallwch weithio'n annibynnol heb lawer o oruchwyliaeth, ac fel rhan o dîm.
- 'Rydych yn hyderus wrth ymdrin â rhanddeiliaid, gweithwyr proffesiynol y diwydiant ac ymarferwyr creadigol newydd / ac sy'n dod i'r amlwg.
- Gallwch weithio i gyllidebau ac amserlenni penodol.
- Mae gennych rhywfaint o brofiad mewn trefnu Hyfforddiant a Digwyddiadau o fewn y sectorau diwylliannol a chyfryngol, a sectorau eraill.
- Mae gennych rhywfaint o wybodaeth am y diwydiannau theatr, ffilm, teledu a / neu drochi a gemau yn y DU.
- 'Rydych yn hawddgar ac yn chwrtais bob amser.
- Mae'r Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol.

## CEISIADAU

**Dyddiad cau ceisiadau: 12.00pm (Hanner dydd) ar ddydd Gwener 23ain Gorffennaf 2021.**

I wneud cais, gallwch anfon e-bost atom ynghyd â'ch CV a llythyr o 750 gair neu lai, sy'n egluro pam 'rydych am weithio gyda Ffilm Cymru a sut mae'ch profiad yn cyd-fynd â'r swyddogaeth fel yr hysbysebwyd uchod.

Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw anghenion mynediad a gallwn drefnu opsiynau ymgeisio amgen. Er enghraifft, gallwn roi cyfeiriad i chi er mwyn i chi bostio eich cais atom fel copi caled, gallwn dderbyn llythyrau fideo, neu gallwn drefnu i chi archebu slot o awr i drawsgrifio'ch llythyr dros y ffôn.

Dylid cyfeirio'ch cais at Reolwr RHWYDWAITH BFI Cymru, Jude Lister d / o: Si-on Eirug, fydd hefyd yn mynd i'r afael ag unrhyw gwestiwn sydd gennych ynglwn â gwneud cais. Gyrrwch e-bost at **sion@ffilmcymruwales.com**

ffilm
CYMRU WALES


WWW.FFILMCYMRUWALES.COM

TRAMSHED TECH
UNED 6
STRYD PENDYRIS
CAERDYDD
CF11 6BH



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government